**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU**

Cofnodion o gyfarfod hybrid y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd Dydd Iau, 11 Ebrill 2024 am 3.00 pm

Cafodd y cyfarfod yma ei ddarlledu'n fyw, ac mae modd gweld y manylion yma

## Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Cynllunio a Datblygu Aelodau oedd yn bresennol: -

Y Cynghorydd S Rees (Cadeirydd)

Y Cynghorydd W Lewis    Y Cynghorydd D Grehan
Y Cynghorydd R Williams    Y Cynghorydd L A Tomkinson

**Roedd y Aelodau Pwyllgor Cynllunio a Datblygu canlynol yn bresennol ar-lein:-**

Y Cynghorydd S Emanuel    Y Cynghorydd A Dennis
Y Cynghorydd G Hughes

## Swyddogion oedd yn bresennol: -

Mr J Bailey, Pennaeth Cynllunio
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Mr S Humphreys, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol
Mr C Jones, Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi
Mr D Hart, Senior Environmental Health Officer
Mr A Rees, Uwch Beiriannydd

## Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol: -

Y Cynghorydd M Norris    Y Cynghorydd J Edwards

**241 Croeso ac Ymddiheuriadau**

Daeth ymddiheuriadau am golli'r cyfarfod oddi wrth Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol J Bonetto, J Smith ac M Powell.

**242 DATGAN BUDDIANT**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

**243 DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU**

**PENDERFYNWYD** nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu ar faterion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

**244 DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015**

**PENDERFYNWYD** nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion nhw.

**245 COFNODION**

**PENDERFYNWYD** cadarnhau'r cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 07.03.24 yn rhai cywir.

**246 NEWID I DREFN YR AGENDA**

Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r agenda yn cael ei hystyried mewn trefn wahanol yn unol â'r manylion yn y cofnodion isod.

**247 CAIS RHIF: 23/1428**

**Newid defnydd o dŷ annedd C3 i dŷ amlfeddiannaeth C4 (HMO) (5 ystafell wely) a dymchwel hen gyntedd yn y cefn. 35 MAES GYNOR, YNYS-HIR, PORTH, CF39 0NR**

**(Nodwch:** Ar yr adeg yma, datganodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G Hughes fuddiant personol ar gyfer y cais yma:
"Rwy'n adnabod dau o'r siaradwyr cyhoeddus yn bersonol.")

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor y siaradwyr cyhoeddus canlynol a gafodd bum munud **yr un** i annerch yr Aelodau ynglŷn â'r cynnig uchod:

- Mr S Davies (Gwrthwynebydd)
- Mr J Jones (Gwrthwynebydd)
- Ms P Holland (Gwrthwynebydd)
- Mr S Jones (Gwrthwynebydd)
- Ms J Williams (Gwrthwynebydd)

Siaradodd yr Aelod Lleol, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J Edwards, nad yw'n aelod o'r Pwyllgor, am y cais gan fynegi ei phryderon ynglŷn â'r datblygiad arfaethedig.

Cyflwynodd y Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi ei gais i'r Pwyllgor ac yn dilyn trafodaeth, penderfynodd yr Aelodau wrthod y cais uchod, yn groes i argymhelliad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth Materion Ffyniant a Datblygu. Roedd hyn oherwydd bod yr Aelodau o'r farn nad yw'r adeilad yn bodloni'r safonau gofynnol ar gyfer datblygiad o'r fath.

O ganlyniad i hynny, cai'r mater ei ohirio tan y cyfarfod priodol nesaf o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu fel bod modd derbyn adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaeth Materion Ffyniant a Datblygu, a gaiff ei lunio drwy ymgynghori â Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol yn ôl yr angen. Bydd yr adroddiad yn tynnu sylw at y cryfderau a'r gwendidau posibl sydd ynghlwm â gwneud penderfyniad yn groes i argymhelliad swyddog, neu unrhyw reswm arfaethedig neu reswm cynllunio dros wneud penderfyniad o'r fath. Caiff yr adroddiad yma ei ystyried cyn dod i benderfyniad ar y mater.

**248 CAIS RHIF: 22/0357**

**Y newid defnydd arfaethedig o dir gwag i'r gogledd o Earthmovers House ar gyfer creu ardal â llawr caled ar gyfer parcio a storio cerbydau, gan gynnwys dargyfeirio Hawl Tramwy Cyhoeddus Llantrisant 223, a gwaith cysylltiedig (derbyniwyd cynlluniau a dogfennau diwygiedig 29/06/22). UNED 16 EARTHMOVERS HOUSE, PARC BUSNES LLANTRISANT, LLANTRISANT, PONT-Y-CLUN, CF72 8LF (CAM 2)**

Ar ôl i'r Pwyllgor drafod y mater, **PENDERFYNWYD** gohirio'r cais fel bod modd i'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu gynnal Ymweliad Safle yng nghwmni cynrychiolydd Iechyd y Cyhoedd er mwyn ystyried y materion o ran sŵn a'r bwnd.

Yng ngoleuni'r penderfyniad uchod, dywedodd y Cadeirydd wrth y sawl a oedd yn bresennol er mwyn annerch y Pwyllgor ynglŷn â'r cais yma y byddai rhaid iddyn nhw wneud cais i annerch y Pwyllgor eto pan fyddai'r mater yn cael ei drafod, pe hoffen nhw wneud hynny.

**249 CAIS RHIF: 23/1207**

**Newid defnydd o dŷ annedd (Dosbarth C3) i gartref gofal preswyl (Dosbarth C2) ar gyfer hyd at 4 o blant, ac ail-greu lle parcio. GWYNFRYN, HEOL BRYNBEDW, TYLORSTOWN, GLYNRHEDYNOG, CF43 3AE**

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor Mr R Chichester (Asiant). Cafodd e bum munud i gyflwyno'r cais uchod i'r Aelodau. Cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu, yn amodol ar ddiwygio Amod 2 i gyfeirio at gynllun sydd wedi'i ddiweddaru.

-

**250 CAIS RHIF: 23/1277**

**Rhoi amodau 7 (Rheoli traffig) ac 8 (manylion draenio) a osodwyd ar ganiatâd cynllunio 23/0575/15 ar gyfer adeiladu 3 fflat tair ystafell wely ar DIR GER 15 STRYD GROVER, GRAIG, PONTYPRIDD.**

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor Ms J Richards (Ymgynghorydd i'r Gwrthwynebwyr). Cafodd hi bum munud i annerch yr Aelodau ynglŷn â'r cynnig uchod.

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio'r cais yr adroddwyd arno'n wreiddiol i'r Pwyllgor ar 7 Mawrth 2024 pan ohiriwyd y cais gan yr Aelodau, er mwyn rhoi rhagor o amser i swyddogion ymchwilio i gynnwys y llythyr hwyr a ddaeth i law oddi wrth Dŵr Cymru (Cofnod Rhif 226).

Bu trafodaeth ymysg yr Aelodau ynglŷn â'r adroddiad pellach, a **PHENDERFYNWYD** y byddai'r Aelodau'n cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad gwreiddiol y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu.

**251 CAIS RHIF: 23/1276**

**Cais Amlinellol gyda'r holl faterion a gadwyd yn ôl ar gyfer 4 tŷ ar wahân gyda modurdai dwbl (Ailgyflwyno cais cynllunio - cyfeirnod 23/0143/13) (Derbyniwyd y Cynllun Diwygiedig ar 25/01/24) TIR YN MAES MOSS, ABER-NANT, ABERDÂR**

Cyflwynodd y Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi'r cais uchod i'r Pwyllgor. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth Materion Ffyniant a Datblygu.

**252 CAIS RHIF: 23/1318/09**

**Tystysgrif Cyfreithlondeb ar gyfer newid defnydd arfaethedig o annedd C3(a) i Gartref Preswyl i Blant C2 ar gyfer hyd at 2 o blant, ynghyd â 2 aelod o staff cymorth 24 awr y dydd, sy'n gweithio mewn sifftiau, a rheolwr cofrestredig. 142 STRYD KENRY, TONYPANDY, CF40 1DD**

Cyflwynodd y Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi'r cais, a gafodd ei gyflwyno'n wreiddiol i'r Pwyllgor ar 7 Mawrth 2024, pan wrthododd yr Aelodau'r Dystysgrif Cyfreithlondeb, a hynny'n groes i argymhelliad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth Materion Ffyniant a Datblygu.

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r adroddiad pellach, a oedd yn tynnu sylw at gryfderau a gwendidau posibl mynd yn groes i argymhelliad swyddogion ac yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** gwrthod y Dystysgrif Cyfreithlondeb yn groes i argymhelliad y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu am y rhesymau canlynol:

Fyddai dull gweithredu cartref plant ddim yn adlewyrchu cymeriad cyffredinol yr anheddau cyfagos a'r ardal gyfagos ac felly byddai'n cael ei ystyried yn newid defnydd sylweddol am y rhesymau canlynol:

• byddai'r nifer ychwanegol o bobl sy'n mynd a dod o ran yr eiddo, a lefel a phatrwm y gweithgarwch a'r aflonyddwch, yn uwch na'r hyn a ystyrir yn nodweddiadol o dŷ o'r math yma;

• y math o alwedigaeth, cynhalwyr ar ddyletswydd drwy'r nos, mwy o fynd a dod nag arfer a phatrymau bywyd yn wahanol i rai'r rhan fwyaf o gartrefi teuluol;

• byddai'r traffig ychwanegol i'r eiddo, gan y staff a'r rheolwyr a gyflogir yno ac ar amser newid sifft, yn ogystal ag ymwelwyr proffesiynol, yn cael ei waethygu gan absenoldeb cyfleusterau parcio oddi ar y stryd;

• capasiti'r yr eiddo ar gyfer y defnydd dwys arfaethedig, oherwydd yr angen i ddarparu gofod ar wahân i dri oedolyn ar gyfer defnydd swyddfa, egwyliau gwaith ac ystafell wely ar gyfer y cynhaliwr dros nos, yn ogystal ag ystafelloedd gwely ar wahân ar gyfer y ddau blentyn, gyda nifer cyfyngedig o gyfleusterau ystafell ymolchi.

O ganlyniad i hyn, ni fyddai’r datblygiad yn gyfreithlon i bwrpas cynllunio, ac mae’r Awdurdod Cynllunio Lleol yn gwrthod rhoi tystysgrif cyfreithlondeb ar gyfer y defnydd arfaethedig, felly byddai angen caniatâd cynllunio.

## 253 GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG

**PENDERFYNODD** yr Aelodau dderbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio mewn perthynas â'r Penderfyniadau Apeliadau Cynllunio a Gorfodi a ddaeth i law, Cymeradwyaethau Penderfyniadau a Gwrthodiadau Dirprwyedig gyda rhesymau, Trosolwg o Achosion Gorfodi a Phenderfyniadau Gorfodi Dirprwyedig ar gyfer y cyfnod 11/03/2024 – 29/03/2024.

**Daeth y cyfarfod i ben am 4.30 pm**

**Y Cynghorydd S Rees**
**Cadeirydd.**